

IECHYD, GOFAL A'R BLYNYDDOEDD CYNNAR

Un o'r sectorau cyflogi mwyaf yn y DU, mae'r diwydiant hwn yn ddelfrydol i chi os ydych yn mwynhau gweithio gyda phobl o bob oedran a gwneud gwahaniaeth i'w bywydau. O ysbytai a meithrinfeydd i'r gadair ddeintyddol, mae sawl llwybr i'w ddilyn!

Cymerwch olwg ar y gwahanol lwybrau gyrfaoedd y gallech chi eu dilyn:

Gweithwyr Iechyd Proffesiynol

Mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn amrywio o feddygon, therapyddion galwedigaethol a therapyddion llafar ac iaith, i seicolegwyr. Mae angen i chi fod yn amyneddgar a mwynhau gweithio gyda'r cyhoedd. Gallwch arbenigo mewn maes penodol.

Gofal Plant

Os ydych wedi'ch buddsoddi i helpu plant i dyfu'n emosiynol, corfforol a chymdeithasol, yna mae gofal plant yn ddelfrydol i chi. Mae'r swyddi'n amrywio'n eang ac yn cynnwys athrawon, cynorthwyrwyr addysgu a rheolwyr meithrinfeydd.

Deintyddol

Mae deintyddion, nyrsys deintyddol, hylenwyr deintyddol, thechnegwyr a therapyddion yn ein helpu ni i gadw'n dannedd gwynion yn lân ac yn iach. Gallwch ddringo'r ysgol a rheoli eich practis deintyddol eich hun hyd yn oed!

Gwyddor Gofal Iechyd

Mae gwyddonwyr gofal iechyd yn ganolog i atal cyflyrau meddygol, rhoi diagnosis ohonynt a'u trin. Delfrydol ar gyfer y rheiny sy'n hoffi datrys problemau ac sy'n wybodus

am yr ymchwil ddiweddaraf. Mae'r swyddi yn cynnwys fferyllwyr, gwyddonwyr biofeddygol a chynorthwyrwyr labordai.

Nyrsio a Bydwreigiaeth

Mae nyrsys yn cynorthwyo meddygon ac ymgynghorwyr drwy wneud i gleifion deimlo'n dawel eu meddwl a diogel, gan fabwysiadu modd gofalgar. Neu beth am hyfforddi fel bydwraig a helpu i ddod â bywyd newydd i'r byd? Swyddi gwerth chweil a boddhaus i'r rheiny sy'n hoffi helpu ac sy'n dosturiol.

Gofal Cymdeithasol

Byddwch yn cefnogi cleifion o bob cefndir gyda'i anghenion unigol. Mae hyn yn cynnwys gofalu am bobl sydd ag anableddau, yr henoed neu'r rheiny sydd dan anfantais gymdeithasol.

Dolenni Defnyddiol

www.skillsforhealth.org.uk


Cyngor Sgiliau'r Sector dros Iechyd

www.skillsforhealth.org.uk

Cyngor Sgiliau'r Sector dros Iechyd

www.stepintothenhhs.nhs.uk/useful-links

Gwefannau gofal iechyd defnyddiol



£27,243
£14.16/AWR
CYFLOG
NODWEDDIADOL AR
GYFARTALED D YN Y
DIWYDIANT HWN

CYFANSWM Y
SWYDDI YN Y
DIWYDIANT HWN

140,740 CYMRU
2,544,291 DU



**GALLAI YMGYNGHORYDD GOFAL
IECHYD ENNILL CYMAINT Â
£100,000 Y FLWYDDYN!**

**MAE'R GYRFAOEDD
SY'N CYNFYDDU
CYFLYMAF YN Y MAES
HWN YN CYNWYS
OPTEGWYR,
FFERYLLWYR A
PHARAFEDDYGON.**



**SWYDDI NYRSIO
YW'R SWYDDI MWYAF
CYFFREDIN I'W CAEL
EU HYSBYSEBU
AR-LEIN**

(ffynhonnell EMSI Q1 2018 Dataset / Gyrfa Cymru)

Beth allaf i ei astudio, ac ymhle?

	CK	PDBG	CN	PP
Gofal Plant Lefel 1	✓	✓	✓	✓
Gofal Plant Lefel 2	✓	✓	✓	✓
Gofal Plant Lefel 3	✓	✓	✓	✓
Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 1		✓	✓	✓
Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2	✓	✓	✓	✓
Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3	✓	✓	✓	✓

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk | admissions@coleggwent.ac.uk | 01495 333777



Campus key: PDBG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / CK - Campws Crosskeys / CN - Campws Dinas Casnewydd / PP - Campws Pont-y-pŵl

